CYFARFOD	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
DYDDIAD	Dydd Mawrth, 24 Ionawr
TEITL	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – diweddariad ar y broses o lunio Asesiad o Lesiant Lleol
AWDUR	Llio Johnson
PWRPAS	Diweddaru'r pwyllgor ar gynnydd

1. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Awdurdod Môn fel sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cytundeb i gyd-weithio gyda Bwrdd ardal Awdurdod Gwynedd ac mae'r Bwrdd ar y cyd wedi bod yn cyfarfod yn chwarterol yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/2017.

Gweithred gyntaf y Bwrdd yw llunio Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer yr ardal.

2. Diweddariad ar y broses o lunio Asesiad o Lesiant Lleol

Sefydlwyd Is-grŵp Llesiant i arwain y gwaith o lunio'r asesiad. Mae'r data perthnasol wedi ei gasglu gan y gwahanol bartneriaid trwy'r grŵp yma.

Lluniwyd llyfrynnau ar gyfer y 6 ardal ym Môn a'r 8 ardal yng Ngwynedd, mae'r llyfrynnau yma yn cynnwys y data perthnasol ar gyfer yr ardal ac yn gofyn i drigolion gysidro'r data a rhoi sylw ar y cynnwys

Sefydlwyd gwefan ar gyfer y gwaith gyda holiadur ar-lein yn casglu barn trigolion ar y llyfrynnau a'r meysydd data

Cynhaliwyd nifer o sesiynau cymunedol yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr lle bu trafodaethau diddorol gyda chymunedau. Mae'r tîm hefyd wedi ymweld â grwpiau penodol megis ysgolion, mentrau cymdeithasol a gwahanol grwpiau cymunedol.

Derbyniwyd bron i 900 o holiaduron ac mae'r rhain nawr yn cael eu dadansoddi ar gyfer y Bwrdd.

3. Camau Nesaf

Mae gweithdy ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei drefnu ar gyfer y 25ain o Ionawr lle bydd yr aelodau yn trafod y data, barn y trigolion a'r grwpiau cymunedol ac yn cytuno ar strwythur yr asesiad.

Bydd drafft o'r Asesiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd mewn cyfarfod ar y 24ain o Chwefror er mwyn cael cymeradwyaeth i'w gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad anstatudol.

Bydd yr Asesiad terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ebrill ac yn cael ei gyhoeddi yn llawn cyn yr etholiad ym mis Mai fel sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf.